CBAC WJEC

# TAG UG/Uwch

0975/51

# MATHEMATEG C3
## Mathemateg Bur

A.M. DYDD GWENER, 1 Mehefin 2012

$1\frac{1}{2}$ awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- llyfr ateb 12 tudalen;
- Llyfryn Fformiwlâu;
- cyfrifiannell.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Rhaid dangos gwaith cyfrifo digonol er mwyn egluro'r dull **mathemategol** sy'n cael ei ddefnyddio.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cofiwch fod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.
JD*(S12-0975-51)

**1.** *(a)* Defnyddiwch Reol Simpson gyda phum mesuryn i ddarganfod bras werth ar gyfer yr integryn

$$\int_0^1 e^{x^2}\,dx.$$

Dangoswch eich gwaith cyfrifo a rhowch eich ateb yn gywir i bedwar lle degol. [4]

*(b)* **Defnyddiwch eich ateb i ran *(a)*** i ddiddwytho bras werth ar gyfer yr integryn

$$\int_0^1 e^{x^2+3}\,dx.$$ [2]

**2.** *(a)* Trwy ddefnyddio gwrthenghraifft, dangoswch fod y gosodiad

'Os yw $\cos\theta = \cos\phi$ yna mae $\sin\theta = \sin\phi$'

yn anghywir. [2]

*(b)* Darganfyddwch holl werthoedd $\theta$ yn yr amrediad $0° \leqslant \theta \leqslant 360°$ sy'n bodloni

$$13\tan^2\theta = 5\sec^2\theta + 6\tan\theta.$$ [6]

**3.** *(a)* Mae'r gromlin $C$ wedi'i ddiffinio gan

$$x^3 - 4x^2y = 2y^3 - 3x - 2.$$

Darganfyddwch werth $\frac{dy}{dx}$ yn y pwynt (3, 1). [4]

*(b)* O wybod bod

$$x = \sin at,\ y = \cos at,$$

lle mae $a$ yn gysonyn, darganfyddwch a symleiddiwch

(i) mynegiad ar gyfer $\frac{dy}{dx}$ yn nhermau $a$ a $t$,

(ii) mynegiad ar gyfer $\frac{d^2y}{dx^2}$ yn nhermau $a$ a $t$. [7]

**4.** Dangoswch fod i'r hafaliad

$$\cos x - 5x + 2 = 0$$

wreiddyn $\alpha$ rhwng 0 a $\frac{\pi}{4}$.

Mae'n bosibl defnyddio'r berthynas gylchol

$$x_{n+1} = \frac{1}{5}(2 + \cos x_n)$$

gydag $x_0 = 0{\cdot}6$ i ddarganfod $\alpha$. Darganfyddwch a chofnodwch werthoedd $x_1$, $x_2$, $x_3$, $x_4$. Ysgrifennwch werth $x_4$ yn gywir i bum lle degol a phrofwch mai'r gwerth hwn yw gwerth $\alpha$ yn gywir i bum lle degol. [7]

**5.** Differwch bob un o'r canlynol mewn perthynas ag $x$.

*(a)* $\ln(7 + 2x - 3x^2)$ *(b)* $e^{\tan x}$ *(c)* $5x^2 \sin^{-1} x$ [2], [2], [3]

**6.** Darganfyddwch

*(a)* (i) $\int 3e^{2-\frac{x}{4}}\,dx$ (ii) $\int \frac{9}{(2x-3)^6}\,dx$ (iii) $\int \frac{7}{3x+1}\,dx$ [6]

*(b)* O wybod bod $0 < a < \frac{\pi}{2}$ a bod

$$\int_0^a \sin 2x\,dx = \frac{1}{4},$$

darganfyddwch werth y cysonyn $a$. [5]


**7.** Datryswch y canlynol.

*(a)* $4|x-3| + 2 = 8 - 5|x-3|$ [3]

*(b)* $|5x-2| \leqslant 3$ [3]

# TROWCH DROSODD

**8.** Mae'r diagram yn dangos braslun o graff $y = f(x)$. Mae'r graff yn mynd trwy'r tarddbwynt ac mae ganddo bwynt minimwm (isafbwynt) yn $(-1, -2)$.




Brasluniwch graff $y = -4f(2x)$, gan nodi cyfesurynnau'r pwynt arhosol. [3]

**9.** Mae gan y ffwythiant $f$ barth $(-\infty, 0)$ ac mae wedi'i ddiffinio gan

$$f(x) = \frac{x^2 + 3}{x^2 + 5}.$$

*(a)* (i) Dangoswch fod $f'(x)$ bob amser yn negatif.

(ii) Ysgrifennwch amrediad $f$. [6]

*(b)* (i) Darganfyddwch fynegiad ar gyfer $f^{-1}(x)$.

(ii) Ysgrifennwch amrediad a pharth $f^{-1}$. [5]

**10.** Mae gan y ffwythiant $g$ barth $(-\infty, \infty)$ ac mae wedi'i ddiffinio gan

$$g(x) = \sqrt{3x^2 + 7}.$$

Datryswch yr hafaliad

$$gg(x) = 8.$$ [5]